

MAWRTH
2022

ADRODDIAD UWCHGYNHADLEDD COSTAU BYW 2022

PARATOWYD GAN SWYDDFA
HELEDD FYCHAN AS



The background of the report features a photograph of several tall stacks of Euro coins, with a focus on the 1 Euro and 2 Euro coins. To the right of the coins, there is a green bottle, possibly containing oil or vinegar. In the foreground, a portion of a price list is visible, showing various food items and their corresponding prices in Euros. The list includes items like 'NIVEA HAND', 'ORANG/MADARINE', 'M/USAGE CIF', 'DEPOUSS. PLIZ', '1L CACHER', 'FRUITS SIROP', 'GOLINI BELIN', 'POIVRON PIQUI', 'CLEMENTINES 1L', 'VERTE PICHQ', and 'SEL TRAD. P'. The prices range from 1.93 to 3.10.

NIVEA HAND	1.05	-
ORANG/MADARINE	2.85	-
M/USAGE CIF	1.93	-
DEPOUSS. PLIZ	2.12	CA
1L CACHER	.93	-
FRUITS SIROP	2.49	TO
GOLINI BELIN	.68	TO
POIVRON PIQUI	5.30	F
CLEMENTINES 1L	2.70	-
VERTE PICHQ	3.25	-
SEL TRAD. P	3.10	-
PANZONI	-	-



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Plaid Cymru
Party of Wales

Cyflwyniad

Fel y gwyddom i gyd, mae prisiau ynni, tanwydd a bwyd yn codi'n ddramatig. Ynghyd â'r toriad i Gredyd Cynhwysol a'r caledi ariannol y mae nifer yn dioddef yn sgil y pandemig, mae pobl ledled Cymru yn wynebu argyfwng costau byw. Yn anffodus, bydd y sefyllfa ond yn gwaethgu wrth i brisiau barhau i godi.

Ar 17 Chwefror 2022, gwahoddais sefydliadau lleol sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n wynebu argyfwng, i ddod at ei gilydd i drafod sut y gallwn gydweithio i sicrhau bod pawb yn derbyn y cymorth sydd ar gael iddynt.

Yn bresennol roedd cynrychiolwyr o Gyngor ar Bopeth, Banciau Bwyd Taf Elái a Phontypridd, Age Connects Morgannwg, Cynulliad y Werin Cymru, Little Lounge, Gweithredu ar Dlodi Plant, Dillad Cymunedol Carmel, YRP a Chyngor Caerdydd.

Hoffwn ddiolch i bawb a fynychodd neu anfonodd dystiolaeth am y sefyllfa y mae pobl yn ein cymunedau yn eu hwynebu, o ganlyniad i gostau byw cynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r uwchgynhadledd yn ogystal â chyfres o flaenoriaethau roedd y sefydliadau a oedd yn bresennol yn teimlo oedd y rhai pwysicaf.

Mae fy nhîm a minnau'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i fynd i'r afael â'r mater hwn a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl yn ein cymunedau.

Heledd Fychan

Heledd Fychan

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru, Plaid Cymru





Crynodeb

Yn ystod yr uwchgynhadledd gwahoddwyd sefydliadau i rannu eu profiadau o sut mae'r argyfwng yn taro'r bobl maent yn eu cefnogi a pha effaith yr oedd yn ei gael ar allu y sefydliadau i ddarparu cymorth.

Roedd yn amlwg bod cysylltiad clir rhwng costau byw cynyddol a mwy o bobl yn chwilio am gymorth. Mae sefydliadau fel banciau bwyd lleol, Shelter Cymru, Cyngor ar Bopeth, a Age Connect i gyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n ceisio defnyddio eu gwasanaethau.

Dywedodd banc bwyd Pontypridd eu bod wedi helpu dros 5,374 o bobl rhwng y cyfnod 2020-2021 o'i gymharu â 3,373 yn y flwyddyn flaenorol. Nododd cynrychiolwyr o fanciau bwyd Pontypridd a Thaf Elái fod pobl yn ceisio cael mynediad i'w gwasanaeth am sawl rheswm gwahanol, ond incwm isel oedd y prif reswm wedyn dyled, ac yna newidiadau ac oedi i fudd-daliadau.

Gyda'r disgwyl i aelwydydd weld eu biliau gynyddu o £693 y flwyddyn ar gyfartaledd o fis Ebrill 2022 gyda chynnydd pellach yn debygol erbyn diwedd y flwyddyn bydd y pwysau ar y gwasanaethau hyn yn cynyddu'n sylweddol.

Nododd Shelter fod rhent wedi cynyddu 7.7% yng Nghymru rhwng 2021 a 2022. O ganlyniad, mae'r sefydliad wedi gweld dros 7,000 o bobl yn cael eu gwthio i ddigartrefedd ac yn byw mewn llety dros dro yma yng Nghymru.

Mae'n amlwg ei bod yn sefyllfa argyfyngus yng Nghymru eisoes, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid pellach i fynd i'r afael â'r argyfwng, bydd teuluoedd yng Nghymru yn dal i gael eu heffeithio'n sylweddol.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio tystiolaeth sefydliadau sy'n gweithio yn y gymuned i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw er mwyn deall yn well sut y gallaf eich cefnogi chi a'ch cymunedau yn fy rôl fel eich aelod rhanbarthol o'r Senedd. Bydd yn helpu i lywio ein blaenoriaethau a camau gweithredu allweddol fel swyddfa dros y misoedd nesaf.

Crynodeb o faterion allweddol

Trafodwyd nifer o faterion gwahanol gan y sefydliadau a oedd yn bresennol yn ystod yr uwchgynhadledd. Nodwyd rhain fel y rhai pwysicaf:

- Cynnydd yn y galw am wasanaethau cymorth yn benodol o ran:
 - Dyled
 - Costau Rhent/ Morgais
 - Costau Bwyd
 - Costau Tanwydd a Ynni
- Pryder nad yw rhai pobl yn ceisio am gymorth oherwydd eu bod yn ofni stigma
- Sefydliadau ddim bob amser yn gwybod beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud a'r cymorth y mae nhw'n cynnig i allu cyfeirio'n effeithiol
- Nid yw bob sefydliad wedi'i strwythuro i gydweithio ar hyn o bryd

Crynodeb o argymhellion

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd, lluniodd y rhai a oedd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd bedwar argymhelliad roeddent yn teimlo y gallem weithredu i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yng Nghanol De Cymru:

- **Gwasanaethau i gydweithio'm agosach i gefnogi pawb mewn angen yn ein cymunedau**
 - Datblygu fframwaith i gasglu data
 - Adeiladu cyfeiriadur o wasanaethau, gyda disgrifiad o'r hyn y mae pob un yn ei wneud
 - Rhannu swyddfeydd ar gyfer cydweithio
 - Mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio rheolaidd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefydliadau gwahanol
 - Mwy o gyfeirio, yn enwedig i gyrraedd pobl sydd ddim yn cael gwybodaeth drwy gyfryngau cymdeithasol/rhyngrwyd
- **Mentrau cymunedol i gefnogi pobl**
 - Cyfarfod yn y dyfodol i hwyluso trafodaethau pellach i ddatblygu syniadau rhwng sefydliadau sydd â diddordeb
 - Cefnogi sefydliadau i sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r gymuned yn effeithiol
- **Cynyddu cymorth ariannol i sefydliadau:**
 - Lobïo'r Llywodraeth i roi cymorth pellach i sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhai mewn angen.
 - Codi ymwybyddiaeth o effaith drwy rannu data
- **Gweithio gyda'n gilydd i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i ymyrryd:**
 - Cyflwyno canfyddiad ein hadroddiad gyda rhanddeiliaid perthnasol y llywodraeth
 - Sicrhau cyfathrebu cyson rhwng sefydliadau a chynrychiolwyr etholedig er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Gwasanaethau i gydweithio'm agosach i gefnogi pawb mewn angen yn ein cymunedau.

Roedd sefydliadau wedi cydnabod nad ydynt bob amser yn gweithio gyda'i gilydd nac yn gwybod beth mae sefydliadau eraill yn ei wneud. Er bod rhai yn cyfeirio pobl i wasanaethau eraill, mae hyn yn anghyson ac felly yn arwain at bobl yn llithro drwy'r rhwyd a allai fod angen cymorth pellach.

Gweithredoedd

- Datblygu fframwaith i gasglu data
- Adeiladu cyfeiriadur o wasanaethau, gyda disgrifiad o'r hyn y mae pob un yn ei wneud
- Rhannu swyddfeydd ar gyfer cydweithio
- Mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio rheolaidd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefydliadau gwahanol
- Mwy o gyfeirio, yn enwedig i gyrraedd pobl sydd ddim yn cael gwybodaeth drwy gyfryngau cymdeithasol/rhyngrwyd

Nodwyd nad oes gan bob sefydliad fynediad at y wybodaeth gywir a mwyaf diweddar am y cymorth sydd ar gael i bobl sydd mewn angen.

Enghraifft o hyn yw bod pobl yn meddwl bod terfyn ar y nifer o weithiau y gall person gael mynediad i fanc bwyd yn ystod cyfnod penodol. Roedd cynrychiolwyr o fanciau bwyd Trussel Trust yn anghytuno, gan ddweud y gall person gael mynediad i fanc bwyd pryd bynnag mae nhw angen.

Roedd pryder am y nifer isel o bobl sydd yn gofyn am y cymorth sydd ar gael, megis y Taleb Tanwydd, oherwydd bod gwybodaeth ddim yn cyrraedd y bobl mewn angen. Gyda dibyniaeth ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, mae llawer o bobl yn colli allan ar wneud cais i gynlluniau cymorth hanfodol. Nodwyd bod hen bobl a'r bobl sydd heb y sgiliau, neu fynediad i'r rhyngrwyd yn colli allan.

Mae'n amlwg bod sefydliadau eisiau gweithio gyda'i gilydd, ac awgrymwyd y dylid datblygu fframwaith i sicrhau bod pob sefydliad yn casglu'r data cywir a pherthnasol y gellid ei ddefnyddio i'w rannu â sefydliadau eraill, yn ogystal ag arwain newid polisi ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae pryder hefyd ei bod yn anodd deall gwir effaith y gost gynyddol o fyw ar bobl Ganol De Cymru heb y wybodaeth yma.



Mentrau cymunedol i gefnogi pobl



Gweithredoedd

- Cyfarfod yn y dyfodol i hwyluso trafodaethau pellach i ddatblygu syniadau rhwng sefydliadau sydd â diddordeb
- Cefnogi sefydliadau i sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r gymuned yn effeithiol.

Wrth drafod syniadau ynglyn a sut i fynd i'r afael â thlodi bwyd, awgrymwyd y dylai sefydliadau feddwl am ffyrdd amgen tu hwnt i gymorth traddodiadol. Nododd sawl sefydliad nifer o brosiectau gwahanol a fyddai o fudd i'r bobl maen't yn helpu ac a allai leihau effaith costau byw cynyddol.

Y prosiectau a gynigiwyd oedd:

- Datblygu prosiectau i bobl dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain.
- Dosbarthiadau i helpu pobl i ddysgu coginio prydau iach fforddiadwy.
- Banc Babanod
- Prosiect i uwchgyrchu dodrefn



Cynyddu cymorth ariannol i sefydliadau:

Gweithredoedd

- Lobïo'r Llywodraeth i roi cymorth pellach i sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhai mewn angen.
- Codi ymwybyddiaeth o effaith drwy rannu data

Yn ystod yr uwchgynhadledd dywedodd sawl sefydliad bod y costau byw cynyddol yn cael effaith ar eu gallu nhw i gefnogi pobl. Yn fwy penodol, mae'r banciau bwyd, sy'n dibynnu ar roddion gan bobl a busnesau lleol, yn gweld gostyngiad cyson yn nifer y rhoddion oherwydd bod y costau cynyddol yn effeithio ar allu pobl i'w cefnogi. Ynghyd â'r cynnydd mewn costau bwyd, mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau eu hunain. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn ymwybodol o hyn, a chreu pecyn cymorth i sefydliadau i sicrhau y gallant barhau i gefnogi pobl.



Gweithio gyda'n gilydd i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i wneud mwy i ymyrryd:

Roedd nifer o'r pryderon a godwyd gan sefydliadau yn ymwneud â phenderfyniadau gwleidyddol a wnaed gan Lywodraeth y DU megis toriadau i gymorth ariannol hanfodol megis rhoi diwedd ar y codiad o £20 i Gredyd Cynhwysol, tâl nad yw'n cynyddu yn unol â chwyddiant ac ati.

Cyfeiriodd Shelter hefyd at effaith toriadau i fuddion hanfodol. Nododd Shelter mai un o'r prif achosion pam fod pobl eisiau cymorth gyda gwasanaethau digartrefedd yw cost rhenti preifat. Mae costau rhenti preifat wedi gweld cynnydd o 7.7% yng Nghymru o fis Ionawr 2021-2022.

Cyfeiriodd sefydliadau hefyd at anhawster ar pobl i gael mynediad i'r cymorth sydd ar gael neu roedd hi'n anodd gwneud cais oherwydd roedd y ceisiadau ddim agored am gyfnod digon hir i bobl fod yn ymwybodol ohonynt.

Y teimlad mwyaf cyffredin yn y cyfarfod oedd yr angen i bawb chwarae ein rhan i ddileu tlodi yng Nghymru.

Gweithredoedd

- Cyflwyno canfyddiad ein hadroddiad gyda rhanddeiliaid perthnasol y llywodraeth
- Sicrhau cyfathrebu cyson rhwng sefydliadau a chynrychiolwyr etholedig er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Casgliad

Roedd pawb a fynychodd yn llafar iawn am eu hymrwymiad i chwarae eu rhan i ddileu tlodi yng Nghymru. Trwy gydweithio, gobeithiaf y byddwn yn gallu gwneud gwahaniaeth ar y mater hwn yn lleol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar y blaenoriaethau a restrir yn yr adroddiad hwn gan sicrhau bod pobl wrth wraidd y gwaith a wnawn, ac y gall pawb sydd angen cymorth arnynt ddod atom am y gefnogaeth honno.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â fi neu fy nhîm os oes angen unrhyw help neu gefnogaeth arnoch, neu os oes unrhyw beth penodol yr hoffech i mi ei godi yn y Senedd mewn perthynas â'r Argyfwng Costau Byw.

Cysylltwch â Heledd



01443 853214



Heledd.Fychan@Senedd.Cymru



2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ



Heledd Fychan AS / MS



@Heledd_Plaid



@Heledd_Plaid



Plaid Cymru
Party of Wales



Senedd Cymru
Welsh Parliament